Cyfle Newydd

Cysyniadau: **Pendantrwydd, ymddiriedaeth.**

Amcan: **Y pleser o fwynhau pethau newydd a'r cyfleoedd newydd a gawn bob dydd.**

Cyfarpar: **Tudalen lân.**

Cyflwyniad:

● Os gwn i beth sy'n dod i'ch meddwl chi pan fydda i'n dweud y gair, 'newydd'? Cyfle i'r plant ymateb.

● Cefais gyfle i holi tri phlentyn yn ddiweddar, neu gall tri phlentyn ddarllen y rhannau isod. Dyma oedd ganddyn nhw i'w ddweud.

Erin:

O'r diwedd mi ydw i wedi cael beth oeddwn i eisio ers tro. Ffôn newydd. Mi oeddwn i wedi swnian ers misoedd a Mam yn dweud yr un peth bob tro, 'Mi gei di ffôn pan fyddi di'n un ar ddeg oed.' A dyna ddigwyddodd. Ar fy mhen-blwydd mi ges i ffôn newydd sbon. Mi ydw i yn ei ddefnyddio bob dydd i gysylltu efo fy ffrindiau. Ond dydw i ddim yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol dim ond os oes 'na argyfwng neu mod i eisio cysylltu â fy rhieni. Mae o'n grêt!

Gwyndaf:

Roedd Dad wedi gadael i mi gael un o'i ddefaid. Y fi oedd piau hi. Ar ôl i mi adael iddi fynd i'r cae efo'r maharen mi ddeudodd Dad ei bod hi'n mynd i gael oen. Mi fûm i'n disgwyl am wythnosau ac yna daeth yn amser i'r oen gyrraedd. Ryw gyda'r nos dyma Dad yn gweiddi arna i. 'Tyrd yn dy flaen,' medda fo, 'mae'r ddafad ar fin rhoi genedigaeth ac mi gei di dynnu'r oen.' Doeddwn i erioed wedi gwneud yn fy mywyd, dim ond wedi gwylio Dad wrthi. Ac mi helpodd fi i dynnu'r oen. Oen

newydd. Mi oeddwn i jest â chrio. Fy oen i oedd hwn. Un gwryw oedd o.

Meleri:
Gan ein bod ni'n gwneud llawer o waith ar y cyfrifiadur mae'n braf, weithiau, cael llyfr sgwennu newydd a phob tudalen yn berffaith lân. Mi fydda i'n sgwennu fy enw ar y clawr ac wedyn yn sgwennu'n daclus ar y dudalen gyntaf. Tudalen wen, lân. Mi ydw i wrth fy modd yn sgwennu am y tro cyntaf – y geiriau cyntaf ar dudalen newydd. Mi fydda i'n gwneud ati i sgwennu'n daclus a chywir. Dim ond gobeithio y bydda i'n dal ati i wneud yr un peth ar bob tudalen.

Trafodaeth bellach:

● Ydych chi wedi cael yr un profiadau ag y mae Erin, Gwyndaf a Meleri wedi'u cael?

● Yr arweinydd i wneud llun o rywbeth cyffredin ar dudalen wen, lân ond hwnnw'n llun gwael. Mynd ati wedyn ddwywaith, dair. Dweud bod y llun olaf yn well ond bod angen mwy o waith arno. Mor braf ydi cael mwy nag un cyfle i wella pan fyddwn wedi gwneud camgymeriad.

● Heddiw, mi ydw i am ddweud Blwyddyn Newydd Dda wrth bob un ohonoch. Faint ohonoch sydd wedi gwneud adduned? Dyma oedd gan Erin, Gwyndaf a Meleri i'w ddweud:

Erin:
Defnyddio llai ar y ffôn a siarad mwy efo fy nheulu yn enwedig amser pryd bwyd. A pheidio â phwdu!

Gwyndaf:
Helpu mwy ar Dad gan obeithio y ca i ddafad arall ganddo! Gweithio'n galetach yn yr ysgol er mwyn i mi gael mynd i Goleg Harper Adams neu Brifysgol Aberystwyth i astudio amaethyddiaeth a chael bod yn perthyn i'r Ffermwyr Ifanc.

Meleri:
Gweld pob diwrnod newydd fel tudalen lân. Os ydw i wedi gwneud camgymeriadau ddoe, ceisio gwneud pethau'n well heddiw.

Munud i feddwl:
Mae pob diwrnod newydd yn gyfle newydd.

Emyn: Abba, fe'th addolwn: Canu Clod 3

Dyfyniad o'r Beibl:
"Wele, yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd." Datguddiad 21:5 BCND

Myfyrdod/Gweddi:
Diolch am yr hapusrwydd mae pethau newydd yn ei roi i ni.
Diolch am gyfleoedd newydd i helpu pawb.
Wnei di, O Dduw, ein helpu ni i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill? Amen.